

Teitl: Title:	Polisi Cŵn Cymorth Assistance Dog Policy
Fersiwn: Version	1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	<p>Staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr. Y rhai sydd angen ci cymorth i gael mynediad i amgylchedd y coleg nad ydynt wedi gallu gwneud hynny yn flaenorol oherwydd ystod o anableddau neu iechyd meddwl gwael.</p> <p>Staff, students, visitors and contractors. Those who need an assistance dog to access the college environment who previously have not been able to due to a range of disabilities or poor mental health</p>

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Cam 1 - Wedi'i gwblhau Cam 2 - Heb ei gwblhau Cam 3 - Heb ei gwblhau Stage 1- Completed Stage 2- Not completed Stage 3- Not completed
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Pennaeth Cynhwysiant Head of Inclusion	
Ymgynghoriad / Consultation:	Tîm Cynhwysiant Cydlynwyr ADY Panel ADY/ Cynhwysiant Inclusion Team ALNSCOs ALN/ Inclusion panel	
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Cydlynwyr ADY Panel ADY/ Cynhwysiant ALNSCOs ALN / Inclusion Panel
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	02/02/22
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: - Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee -

		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
		Corff Llywodraethu / Governing Body:	-
Dyddiad Adolygu: Review Date:	02/02/26		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Cynnwys

Polisi Cŵn Cymorth

1. Cyflwyniad		
2. Nod		
3. Cwmpas y Polisi		
4. Diffiniadau		
5. Cyfrifoldebau		
6. Proses a gweithdrefn		
7. Pryderon neu Gwynion		
8. Monitro, Adolygu ac Effaith Cydraddoldeb		

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol i fyfyrwyr. Mae'r Coleg yn adnabod bod cŵn Cymorth yn darparu cymorth amhrisiadwy i unigolion gydag ystod o anableddau.

2. Nod

- 2.1. Mae'r ddogfen hon yn egluro polisi'r Coleg mewn perthynas â chŵn cymorth ar safleoedd y Coleg ac yn llety preswyl y Coleg.

3. Cwmpas y Polisi

- 3.1. Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau am gŵn cymorth ar safleoedd y Coleg ac yn llety preswyl y Coleg gan fyfyrwyr sy'n gwneud cais i astudio yn y Coleg.
- 3.2. Mae'n bosibl na fydd hi'n bosibl i gŵn cymorth gael mynediad i bobman ar ein safleoedd oherwydd risgiau iechyd a diogelwch, trwyddedu neu reoliadau sector, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ardaloedd storio anifeiliaid a'r cyfleusterau Technoleg a Chynhyrchu Bwyd. Bydd y Coleg yn ystyried pob cais yn unigol ac yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion unigol.
- 3.3. Ni all y Coleg wireddu ceisiadau gan fyfyrwyr am anifeiliaid cymorth, anifeiliaid therapi nag anifeiliaid anwes ar ein safleoedd, oni bai eu bod yn bodloni'r diffiniad o gymorth fel y nodir yn y polisi hwn.
- 3.4. Gall myfyrwyr sydd wedi gwneud cais ac yn dymuno trafod eu ci cymorth a'u hanghenion cymorth gysylltu â'r Tîm Cynhwysiant ar 01978 237468 am gyngor ac arweiniad am eu gofynion unigol.

4. Diffiniadau

- 4.1. Yn y polisi hwn mae ci cymorth yn golygu ci ag adnabyddiaeth ffurfiol sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu'n benodol gan aelod o Gŵn Cymorth (DU), ei asiantaethau partner neu sefydliad cyfatebol mewn gwlad arall neu gi yr aseswyd ei fod yn dangos tystiolaeth yn unol â 4.2 isod.
- 4.2. Bydd y Coleg yn asesu achosion unigol lle nad yw ci cymorth wedi ei achredu gan aelod o Gŵn Cymorth (DU), ei asiantaethau partner neu sefydliad cyfatebol mewn gwlad arall. Bydd pob achos yn cael ei gyflwyno i'r Panel Cynhwysiant i gael ei adolygu. Dylai'r myfyriwr/ymgeisydd ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod:

- 4.2.1. Wedi ymgymryd ag asesiad o natur y ci gyda hyfforddwr â chymwysterau addas
 - 4.2.2. Wedi cael eu hyfforddi i safonau Gŵn Cymorth (DU) gyda hyfforddwr â chymwysterau addas.
 - 4.2.3. Wedi cael eu hasesu i safonau Gŵn Cymorth (DU) gyda hyfforddwr â chymwysterau addas.
 - 4.2.4. Yn gallu darparu tystiolaeth o'u hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- 4.3. Gall tystiolaeth fod ar ffurf tystysgrifau, cofnodion hyfforddi ac asesu, dogfennau yswiriant, tystebau gan weithwyr proffesiynol cymwys a chydabyddedig ac ati

5. Cyfrifoldebau

5.1. Bydd y Coleg yn:

- 5.1.1 sicrhau bod yr holl ofynion mynediad yn cael eu hystyried gyda phob adran dan sylw, wedi'u cytuno ymlaen llaw ac wedi eu cyfleu i'r myfyriwr cyn iddynt ddod i'r safle neu'r llety.
- 5.1.2 rhoi ystyriaeth i les a llesiant y ci cymorth wrth ystyried cais mynediad neu fynediad parhaus;
- 5.1.3 hysbysu'r staff perthnasol neu fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio'n agos at gi cymorth;
- 5.1.4 nodi a rhoi gwybod i fyfyrwyr lle mae yna leoliad man toiled addas ar gyfer y ci cymorth;
- 5.1.5 rhoi gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer ymdrin â digwyddiadau niweidiol, megis adweithiau alergaidd, ofn anifeiliaid, camymddwyn gan yr anifeiliaid neu ddifrod i eiddo fel y gellir rheoli unrhyw ddigwyddiadau yn deg ac yn effeithiol.

5.2. Bydd y myfyriwr yn:

- 5.2.1. Rhoi ystyriaeth i les a llesiant y ci cymorth wrth wneud cais a chynnal y ci cymorth mewn iechyd a glanweithdra da yn ystod ei amser ar y safle;
- 5.2.2. Bod yn gyfrifol am ymddygiad y ci cymorth trwy'r amser pan fydd ar y safle neu mewn llety preswyl;
- 5.2.3. Darparu trefniadau priodol ar gyfer y ci cymorth pan na fydd yn bosibl iddo fod yn rhan o wersi neu sesiynau ymarferol mewn rhai ardaloedd o'r coleg, gan nad yw'r Coleg yn gallu darparu cyfleusterau gofal ar gyfer y ci;

- 5.2.4. Darparu manylion adnabyddiaeth ffurfiol dilys am y ci cymorth, ei berchennog a manylion y sefydliad hyfforddi. Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno'r manylion hyn i staff y Coleg os gofynnir iddo wneud hynny;
- 5.2.5. Sicrhau bod gan y ci cymorth yswiriant atebolrwydd llawn a'i fod wedi'i frechu'n berthnasol a darparu copïau o'r manylion hyn i'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm;
- 5.2.6. Cadw'r ci cymorth ar dennyn ar bob achlysur pan fydd mewn gwersi neu yn symud o amgylch safle'r Coleg;
- 5.2.7. Cydymffurfio â'r holl gyfyngiadau mynediad a roddwyd ar waith gan y Coleg fel rhan o'r trefniadau ar gyfer y ci cymorth;
- 5.2.8. Glanhau ar ôl y ci cymorth cyn belled ag y bo modd gan wneud defnydd o'r manau toiled dynodedig cyn belled ag y bo modd. Rhoi gwybod i aelod o staff am unrhyw faw mewn manau heb eu dynodi na chafodd eu glanhau fel y gall yr adran gyfleusterau lanhau'r ardal;
- 5.2.9. Sicrhau bod y ci yn ymddwyn mewn modd derbyniol ar safle'r coleg ac yn cyflwyno natur ddiogel a dibynadwy;
- 5.2.10. Sicrhewch y gellir adnabod y ci yn ffurfiol ar ffurf siaced blethedig neu orchudd tennyn.

6. Proses a gweithdrefn

- 6.1. Dylai myfyrrwyr sy'n gwneud cais i ddod â chi cymorth gyda nhw wneud cais cychwynnol a thrafod eu gofynion gyda'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm sydd â chyfrifoldeb i gynnwys y tîm Cynhwysiant.
- 6.2. Rhaid i'r myfyriwr/ymgeisydd roi'r ddogfennaeth berthnasol i'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm fel tystiolaeth o achrediad, hanes brechu ac yswiriant atebolrwydd y ci cymorth.
- 6.3. Bydd y Cyfarwyddwr Cwricwlwm yn cynnal ymgynghoriad priodol â'r holl adranau dan sylw, gan gynnwys y Tîm Iechyd a Diogelwch a Chynhwysiant, ac, os yw'n berthnasol, gwasanaethau preswyl a chludiant er mwyn ystyried trefniadau priodol a chadarnhau a ellir gŵneud addasiadau rhesymol i ddarparu mynediad i wasanaethau.
- 6.4. Bydd y Cyfarwyddwr Cwricwlwm yn cadarnhau'r trefniadau gyda'r myfyriwr/ymgeisydd, gan egluro unrhyw risgiau neu bryderon penodol am y cais, gan gynnwys unrhyw feysydd o wasanaethau'r Coleg lle mae'r Coleg yn ystyried bod yr addasiad y gofynnwyd amdano i'w wasanaethau yn afresymol.
- 6.5. Lle caniateir y cais, bydd unrhyw addasiadau, gofynion neu gyfyngiadau penodol sy'n berthnasol yn cael eu hesbonio i'r myfyriwr/ymgeisydd. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, drefniadau amgen y gallai fod angen i'r myfyriwr/ymgeisydd eu rhoi ar waith ar gyfer y ci cymorth ar gyfer rhai gwersi/sesiynau ymarferol os na chaniateir y ci cymorth yn yr ardaloedd hynny.

7. Pryderon neu Gwynion

- 7.1. Gall y Coleg wrthod y cais neu efallai y bydd angen symud ci cymorth o'i safle a'i lety os:

- 7.1.1. Nad yw'r ci wedi ei hyfforddi a'i achredu'n benodol gan aelod o Gŵn Cymorth (DU), ei asiantaethau partner neu sefydliad cyfatebol mewn gwlad arall;
- 7.1.2. Mae'r Coleg yn ystyried ei fod rhoi myfyrwyr, staff, aelodau'r cyhoedd neu anifeiliaid eraill ar y safle mewn perygl;
- 7.1.3. Nid yw'r myfyriwr yn gweithredu yn unol â'r termau a nodir yn y polisi hwn ac unrhyw drefniadau mynediad a wneir o dan y polisi hwn, gan gynnwys y cyfrifoldebau a nodir yn adran 5.2;
- 7.1.4. Mae'n sâl, mewn iechyd gwael, yn aflan neu'n flêr.

7.2. Os oes gan y myfyriwr neu unrhyw fyfyrwr neu aelod arall o staff bryder ynghylch y ci cymorth, dylid ei godi yn y lle cyntaf gyda'r cyfarwyddwr cwricwlwm gyda'r bwriad o ddatrys y mater yn anffurfiol. Os na ellir datrys y mater yn anffurfiol, dylai'r achwynydd godi cwyn yn unol â pholisïau cwynion y Coleg fel y bo'n briodol.

8. Monitro, Adolygu ac Effaith Cydraddoldeb

- 8.1. Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd a'i fonitro. Wrth fonitro ei effaith, bydd y Coleg yn rhoi sylw dyledus i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Coleg a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- 8.2. Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â'r polisïau a'r dogfennau canlynol:
 - 8.2.1. Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Coleg
 - 8.2.2. Polisi Cwynion, Pryderon a Chanmoliaeth
- 8.3. Mae'r Coleg yn parhau i fod yn ymwybodol o'i ddyletswydd gofal a'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cyfle cyfartal a thegwch ym mhob maes o fywyd y Coleg ac i gydnabod gwerth amrywiaeth. Gweithredir y Polisi hwn yn unol â chenhadaeth Gwerthoedd y Coleg a gwerthoedd sy'n cydnabod, parchu, hyrwyddo a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.